llyw.cymru/ycriwmentrus

# Y CRIW Mentrus

Her Ysgolion Cynradd






# Pam bod yn Gefnogwr Busnes y Criw Mentrus?







Syniadau Mawr Cymru | Big Ideas Wales

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Fel cefnogwr Her Y Criw Mentrus bydd eich sefydliad yn ysbrydoli plant Cymru i feithrin archwaeth am fusnes; dysgu sgiliau bywyd pwysig, llythrennedd a rhifedd, wrth gael llawer o hwyl ac ymdeimlad o gyflawniad.










Gallwch helpu mewn ffordd sy'n addas i chi a'ch busnes. Gallech fod yn brif noddwr ac amlygu eich brand fel un sy'n gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan bobl ifanc yn ogystal ag addysg entrepreneuraidd. Neu fe allech roi o'ch amser i ymweld â'ch ysgol gynradd leol i gefnogi eu her, neu roi anrhegion i wobrwyo cynnydd a chyflawniad.

Efallai eich bod yn chwilio am fuddion penodol drwy gefnogi prosiect fel hwn. Felly, os nad oes pecyn sy'n addas byddwn yn gweithio'n hyblyg gyda chi i ddatblygu pecyn pwrpasol er mwyn sicrhau ein bod ni'n diwallu'ch anghenion chi yn ogystal ag anghenion yr Her.

Dyma rai o'r ffyrdd y gallech gefnogi a gwneud gwahaniaeth i'r profiad a gaiff plant ysgolion cynradd yng Nghymru a chyflawni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CCC) eich cwmni ar yr un pryd.





## Nawdd

Mae yna nifer o **Gyfleoedd Noddi** ar gyfer eich ystyriaeth yn nes ymlaen yn y daflen. Gallech ddod yn Brif Noddwr neu noddi un o'r digwyddiadau Arddangosfa Ranbarthol.

Byddwn yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i gyfle sy'n gweddu i'ch anghenion ac sy'n cynnig PR positif i gynyddu eich enw da ymhlith y cynulleidfaoedd rydych am eu targedu.

## Rhoddion

### Gwobrau a Chymhellion

Bob haf byddwn yn cynnal Digwyddiadau Arddangosfa Ranbarthol ledled Cymru.

Efallai bod gan eich cwmni ddiddordeb mewn rhoi gwobrau a/neu gymhellion ar gyfer y disgyblion a'r ysgolion hynny sy'n cymryd rhan. Byddwn hefyd yn cyhoeddi gwobrwyon fan a'r lle misol wrth i'r ysgolion gofrestru eu gweithgareddau menter ar-lein.

Gallai hyn fod yn wobr i ysgolion fel offer, adnoddau addysgol neu weithgareddau a theithiau sy'n gysylltiedig â busnes ar gyfer y disgyblion.

Drwy wneud hyn byddwch yn codi'ch proffil ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan, derbyn cydnabyddiaeth ar y wefan ac mewn gweithgarwch PR, ac ymhlith aelodau allweddol yn y Llywodraeth a byd busnes.

Mae hefyd yn ffordd wych i arddangos eich cynnyrch a'ch gwasanaethau.

## Sgiliau proffesiynol

Fel perchennog busnes neu weithiwr gallech gynnig eich sgiliau i gefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu Prosiect Menter.

Gallai'r gefnogaeth hon gymryd sawl ffurf fel:

- mentora;
- cynnig sgyrsiau ar faterion busnes penodol fel Marchnata neu Gyllid; neu
- gefnogi ysgolion wrth iddynt gynllunio eu busnes a'i sefydlu.

## Rhoddion

Efallai eich bod yn dymuno rhoi rhodd ar ffurf cyllid i sbarduno busnes neu fenthyciad i'ch ysgol leol i roi cic-gychwyn i'w 'Busnes'. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o £5 -£100 – beth bynnag y teimlwch y gallwch ei fforddio.

Gallwch hyd yn oed roi deunydd neu adnoddau rhad ac am ddim i'w cynorthwyo gyda'u her.

Mae hyn yn ffordd ardderchog o roi rhywbeth yn ôl i gymunedau ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â chyfrannu at ymrwymiadau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol eich cwmni.

Gallwn eich helpu i nodi'r ysgolion a fyddai'n elwa ar eich cefnogaeth yn y modd hwn.

## Gwirfoddoli

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr corfforaethol i weithio gyda ni mewn nifer o ffyrdd megis:

- gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i'w cefnogi i ddeall yr hyn sydd ei angen i sefydlu busnes a bod yn entrepreneuraidd
- helpu i hyrwyddo'r Her i ysgolion a chynyddu cyfranogiad
- cynnig sgiliau a phrofiad proffesiynol i ddarparu cyngor a chymorth rhad ac am ddim i ysgolion
- rhoi help llaw mewn digwyddiadau Arddangosfa trwy gynnig gweithdai hwyliog a rhyngweithiol sy'n berthnasol i fusnes.

Am ragor o wybodaeth ar sut y gallai eich sefydliad gymryd rhan cysylltwch â ni yn **ycriwmentrus@cazbah.cymru** os gwelwch yn dda.





Y CRIW Mentrus

Her Ysgolion Cynradd

# PECYNNAU NAWDD





## Prif Noddwr £5,000+VAT

*(Ar gyfer un noddwr yn unig)*


Cydnabyddiaeth fel Prif Noddwr:

- Cyfle i fod yn gysylltiedig â Gyrfa Cymru, Busnes Cymru/ Llywodraeth Cymru a Her Genedlaethol Y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd.
- Logo ar yr holl ddeunydd hyrwyddo a deunyddiau a anfonir i ysgolion, partneriaid, awdurdodau lleol, busnesau a chynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys y pecyn cofrestru electronig, ebost electronig, rhaglenni digwyddiadau a gwybodaeth yn y cyfryngau cymdeithasol.
- Cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Y Criw Mentrus.
- Logo a chydnabyddiaeth ar wefan Y Criw Mentrus gyda hyperddolenni i wefan y noddwr ei hun.
- Cynrychiolydd i'w gynnwys mewn lluniau yn y digwyddiad.
- Cynrychiolydd i'w gynnwys mewn ffilm(iau) o'r digwyddiadau.
- Cyfle i siarad mewn digwyddiadau Arddangosfa ar draws Cymru.
- Logo ar bob arddangosiad clyweled mewn digwyddiadau Arddangosfa.
- Opsiwn i gynnwys eitem hyrwyddol ar gyfer disgyblion a chynrychiolwyr eraill mewn digwyddiadau Arddangosfa (wedi ei roi gan y noddwr).
- Cyfle i gael hyd at ddau stondin gwybodaeth ym mhob digwyddiad Arddangosfa.
- Cyfle i gyflwyno gwobrau ar y pryd yn y digwyddiadau Arddangosfa.
- Cyfle i gynnal sesiwn yn ymwneud â busnes/menter yn y digwyddiadau Arddangosfa.
- Cydnabyddiaeth mewn datganiadau i'r wasg (ni ellir gwarantu sylw).

## Noddwr Cysylltiol
## £3,000+VAT

Cydnabyddiaeth fel Noddwr Cysylltiol:

- Logo ar yr holl ddeunydd hyrwyddo a deunyddiau a ddanfonir i ysgolion, partneriaid, awdurdodau lleol, busnesau a chynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys y pecyn cofrestru electronig, ebost electronig, rhaglenni digwyddiadau a gwybodaeth cyfryngau cymdeithasol.
- Logo a chydnabyddiaeth ar wefan Y Criw Mentrus gyda hyperddolenni i wefan y noddwr ei hun.
- Cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Y Criw Mentrus.
- Cynnwys cynrychiolydd mewn lluniau o'r digwyddiad.
- Cydnabyddiaeth mewn ffilm(iau) o'r digwyddiadau.
- Logo ar bob arddangosiad clyweled mewn digwyddiadau Arddangosfa.
- Opsiwn i gynnwys eitem hyrwyddol ar gyfer disgyblion a chynrychiolwyr eraill mewn digwyddiadau Arddangosfa (wedi ei roi gan y noddwr).
- Cyfle i gael stondinau gwybodaeth ym mhob digwyddiad Arddangosfa.
- Cyfle i gynnal sesiwn yn ymwneud â busnes/menter yn y digwyddiadau Arddangosfa.
- Cydnabyddiaeth mewn datganiadau i'r wasg (ni ellir gwarantu sylw).





## Noddwr Digwyddiad Arddangosfa
### £1,500+VAT neu ddarpariaeth lleoliad rhad ac am ddim

*Ar gyfer un noddwr yn unig fesul rhanbarth – Gogledd, De Ddwyrain, Canol y De, Y Canolbarth a Gorllewin Cymru*

- Logo a chydnabyddiaeth ar wefan Y Criw Mentrus gyda hyperddolenni i wefan y noddwr ei hun.
- Logo ar yr holl ddeunydd printiedig a gwybodaeth electroneg yn ymwneud â'r digwyddiad Arddangosfa Ranbarthol a noddir.
- Cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Y Criw Mentrus.
- Cydnabyddiaeth mewn ffilm(iau) o'r digwyddiadau.
- Cydnabyddiaeth gan y cyflwynydd yn y digwyddiad.
- Logo ar bob arddangosiad clyweled mewn digwyddiadau Arddangosfa a noddir.
- Cyfle i gael stondin gwybodaeth ym mhob digwyddiad Arddangosfa.
- Cyfle i gynnal sesiwn yn ymwneud â busnes/menter yn y digwyddiadau Arddangosfa .
- Cydnabyddiaeth mewn datganiadau rhanbarthol i'r wasg (ni ellir gwarantu sylw).

## Cefnogwr Digwyddiad Arddangosfa'r Her
### £500+VAT neu ddarparu sesiwn busnes/menter rhad ac am ddim yn y digwyddiad Arddangosfa

*Gogledd, De Ddwyrain, Canol y De, Y Canolbarth a Gorllewin Cymru*

- Logo ar wefan Y Criw Mentrus gyda hyperddolenni i wefan y noddwr ei hun.
- Cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Y Criw Mentrus.
- Logo ar arddangosiad clyweled mewn digwyddiad a gefnogir.
- Cyfle i gynnal sesiwn yn ymwneud â busnes/menter yn y digwyddiadau Arddangosfa.

Y CRIW Mentrus

Her Ysgolion Cynradd

ycriwmentrus@cazbah.cymru

llyw.cymru/ycriwmentrus